**<u>RHYBUDD O WNEUD</u>**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYN CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD) (A5026 FFORDD HOLWAY A A5026 STRYD CHITFFORDD, TREFFYNNON) (FFYRDD CYFYNGEDIG A 40MYA) (DIWYGIAD RHIF 03) 2024**

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar 11 Mehefin 2024 drwy arfer ei bwerau dan Adran 81, 82 a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a Rhan IV Atodlen 9 y Ddeddf, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a Therfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a heb Gyfyngiad) 2023, i gyflwyno:

a) Gostwng y terfyn cyflymder presennol o 40mya ar yr:-

**A5026 Ffordd Holway, Treffynnon:**

Gostwng y terfyn cyflymder o 40mya o 371 metr i bwynt 46 metr i’r de-ddwyrain o’i chyffordd â’r A5026 Whitford Street, Treffynnon fel sydd i’w weld ar Atodlen Map G24.

b) Cyflwyno Ffordd Gyfyngedig (20mya) ar y:

**A5026 Ffordd Holway, Treffynnon:**

O bwynt 46 metr i’r de-ddwyrain o’i chyffordd â’r A5026 Whitford Street, am bellter o 371 metr i’r gogledd-ddwyrain fel sydd i’w weld ar Atodlen Map F24 a G24.

**A5026 Stryd Chwitffordd, Treffynnon:**

O'r gyffordd â'r A5026 Ffordd Holway, am bellter o 47 metr i gyfeiriad y dwyrain ar Atodlen Map G24

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a’r Terfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Heb Gyfyngiad) 2023 yn parhau mewn grym.

Os ydych yn dymuno gweld copi o’r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 21 Mehefin 2024, cynlluniau’n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau’r cyngor dros y Gorchymyn i’w gweld yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Hen Neuadd y Dref, Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7TD yn ystod oriau swyddfa neu gellir eu gweld ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoliadau Traffig neu gellir gofyn am gopi o’r dogfennau drwy anfon e-bost Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dyddiedig Dydd Gwener 14 Mehefin 2024

KWilby

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint CH7 6NF

**DYDDIEDIG 11 MEHEFIN 2024**

---

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT A5026 FFORDD HOLWAY A A5026 STRYD CHITFFORDD, TREFFYNNON) (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (GWELLIANT 3) CYNGOR SIR Y FFLINT 2024

---


**Katie Wilby**

**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**

**Cyngor Sir y Fflint**

**Neuadd y Sir**

**Yr Wyddgrug**

**Sir y Fflint**

**CH7 6NF**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**

**A5026 FFORDD HOLWAY A A5026 STRYD CHITFFORDD, TREFFYNNON**

**(FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (GWELLIANT 3) CYNGOR SIR Y FFLINT 2024**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i rymoedd dan Adran 84 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob grym arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL**

**Enwi a chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mehefin 2024 a gellir cyfeirio ato fel (GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT A5026 FFORDD HOLWAY A A5026 STRYD CHITFFORDD, TREFFYNNON (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD) (DIWYGIAD RHIF 3) 2024.

**Darpariaethau Cyffredinol**

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

4. Bydd y rhan o'r ffordd a nodir yn Atodlen 1 a atodlen map F24 a G24 y Gorchymyn hwn bellach yn ffordd gyfyngedig at ddibenion Adran 81 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

5. Ni chaiff unrhyw un yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr ar y darnau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Mewn grym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, bydd Atodlen Map F24 a G24 Rhif Taflen Ddiwygiedig: 2 sydd wedi ei chynnwys yn y Gorchymyn hwn, yn disodli Atodlen Map F24 a G24, Rhif Taflen Ddiwygiedig 1, yng Ngorchymyn (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a'r terfynau cyflymder cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Ffyrdd Heb Gyfyngiad) Cyngor Sir y Fflint 2023, mewn perthynas â'r ffyrdd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**ATODLEN 1**
**20 MYA**
**TREFFYNNON**

| **Enw'r Ffordd** | **Atodlen Map** | **Taflen i'w diwygio** |
|---|---|---|
| A5026 Ffordd Holway | F24<br>G24 | 2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023)<br>2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023) |
| A5026 Stryd Chitffordd | G24 | 2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023) |

**ATODLEN 2**
**40 MYA**
**TREFFYNNON**

| **Enw'r Ffordd** | **Atodlen Map** | **Taflen i'w diwygio** |
|---|---|---|
| A5026 Fron Park Road | G24 | 2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023) |

21387.

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN )**

**CYNGOR SIR Y FFLINT )**

yn y fan hon )

y 11 diwrnod o Mehefin 2024 )

ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

~~**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**~~

**PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU**

~~**UWCH GYFREITHIWR**~~

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYN CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD)**
**(A5026 FFORDD HOLWAY A A5026 STRYD CHITFFORDD, TREFFYNNON)**
**(FFYRDD CYFYNGEDIG A 40MYA) (DIWYGIAD RHIF 03) 202-**

## DATGANIAD O’R RHESYMAU DROS GYNNIG I WNEUD Y GORCHYMYN

Yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i weithredu mesurau diogelwch sylweddol (mae’r Terfyn Cyflymder 20 mya yn ffurfio rhan ohonynt) er mwyn mynd i’r afael â thagfeydd a lleihau symudiadau cerbydau diangen ar hyd y llwybrau i Ysgol Gwenffrwd ac Ysgol St Winefrides.

Mae nifer o’r problemau a nodwyd ar hyd y llwybrau yn ymwneud â lefelau uchel o gerbydau’n cael eu defnyddio a thagfeydd cysylltiedig yn yr ardaloedd yn agos at yr ysgol ac ar hyd nifer o lwybrau i’r ysgol.

Bydd gweithredu terfyn cyflymder gorfodol Ffyrdd Cyfyngedig yr awr arfaethedig ar hyd terfyn y cynllun arfaethedig yn ymdrin â phroblemau goryrru a hefyd sicrhau bod y llwybr yn cyrraedd y safon ofynnol i hyrwyddo defnydd o ddulliau teithio llesol trwy’r cysyniad o rannu gofod.

Bydd gostwng y terfyn cyflymder yn ymdrin â phroblemau goryrru a bydd yn gwella diogelwch i gerddwyr a defnyddwyr ffyrdd sy’n agored i niwed, a lleihau tagfeydd a gwella llif y traffig. Bydd lleihau’r tagfeydd o fudd i ddiogelwch y plant sy’n teithio i'r ysgol ac yn ôl adref a bydd hefyd yn gwella ansawdd yr aer ac ansawdd bywyd trigolion lleol.


Ffyrdd Cyfyngedig (20mya)yn rhan hanfodol o’r cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae mesurau eraill o’r fath yn cynnwys cyfleusterau croesi newydd a gwell darpariaethau cerdded a beicio.

Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig dydd Gwener, 08 Mawrth 2024

KWilby

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF




Katie Wilby

Director of Environment.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd.

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

STREETSCENE

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.


| DRAWN BY: NGW | PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|---|
| CHECKED BY: JB | AMENDMENTS: | | DATE |
| SCALE: 1: NTS @ A3 | | | |
| NAT. GRID REF: 318092 376186 | | | |

# A5026 Ffordd Holway, Threffynnon
# A5026 Holway Road, Holywell

Ffyrdd Cyfyngedig Terfyn Cyflymder a 40mya

Restricted & 40mph Speed Limit
(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER HT/24/A5026 101 C1



© Crown copyright and database rights, 2023. OS 100023386.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, 2023. OS 100023386.

## Legend / Eglurhad

| | |
|---|---|
| 20 mph by Order<br>20 mya drwy Orchymyn | National Speed Limit applies<br>Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol |
| Restricted Road (20 mph)<br>Ffordd Gyfyngedig (20 mya) | Derestricted by Order (National Speed Limit applies)<br>Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol) |
| 30 mph / mya | Roads subject to separate Orders<br>Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân |
| 40 mph / mya | |
| 50 mph / mya | County Boundary / Ffin y Sir |

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL


**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS. RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) ORDER 2024.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) CYNGOR SIR Y FFLINT 2024.**

**Sheet F24 Dalen**

**Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen:** 2

**Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** 21/06/2024




**Legend / Eg**

- 20 mph by Order / 20 mya drwy Orchymyn
- Restricted Road (20 mph) / Ffordd Gyfyngedig (20 mya)
- 30 mph / mya
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya

E COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS)
/IPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS.
D DERESTRICTED ROADS) ORDER 2024.

YRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA,
RFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL.
/NGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD)
/NGOR SIR Y FFLINT 2024.

| | |
|---|---|
| Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen: | 2 |
| Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o: | 21/06/2024 |